

Pwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach

**Cydgytundeb ar Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl
ar gyfer Staff Rheoli ar Gontract**

Fersiwn: **TERFYNOL**

Dyddiad Adolygu: Hydref 2020

Pwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach (Mabwysiadu a Llofnodi) ar 13 Hydref 2017

Cymeradwywyd gan Benaethiaid Colegau ar 18 Gorffennaf 2017

Cymeradwywyd gan Bwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach ar 21 Mehefin 2017

Dyddiad Creu: 24 Chwefror 2015

Adran		Tudalen
1.	Y Cyd-destun	3
2.	Statws	3
3.	Cwmpas	3
4.	Disgrifiad o Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl	3
5.	Gofynion Polisi	4
6.	Rheoli Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl	5
7.	Monitro ac Adolygu	5

Atodiadau:

Os hoffech chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod y ddogfen hon mewn fformat gwahanol cysylltwch â:

Julie Osman, ColegauCymru
E-bost: julie.osman@colegaucymru.ac.uk

1. Y Cyd-destun

- 1.1 Mae Colegau yn cydnabod bod natur eu gwaith yn golygu y bydd angen i reolwyr weithio y tu allan i'w horiau gwaith cydnabyddedig ar adegau. Fodd bynnag, mae Colegau hefyd yn cydnabod eu dyletswydd i ofalu am iechyd a diogelwch rheolwyr drwy sicrhau nad ydynt yn gweithio oriau gormodol, a thrwy sicrhau bod unrhyw oriau ychwanegol yn cael eu cytuno ymlaen llaw ac yn cael eu monitro'n briodol.

2. Statws

- 2.1. Mae'r cytundeb hwn wedi'i gytuno ar y cyd rhwng yr undebau llafur a'r cyflogwyr ar Bwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach.
- 2.2. Mae'r cytundeb hwn i'w ddefnyddio gan Golegau unigol er mwyn datblygu polisiau a gweithdrefnau i reoli Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl ar gyfer staff a gyflogir yn unol â'r telerau a'r amodau a geir yn y contract cenedlaethol i reolwyr. Wrth benderfynu ar bolisi lleol, dylid dilyn y trefniadau arferol er mwyn ymgynghori â'r undebau llafur cydnabyddedig yn unol â'r telerau a geir yn y cydgytundeb hwn.
- 2.3. Aseswyd effaith y ddogfen hon ar lefel genedlaethol er mwyn helpu Colegau i gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w weld yn Atodiad 1. Dylai pob Coleg gynnal ei asesiad ei hun o'r effaith ar gydraddoldeb ar lefel leol.

3. Cwmpas

- 3.1. Mae'r cytundeb hwn yn berthnasol i bob rheolwr a gyflogir yn unol â'r telerau a geir yn y contract cenedlaethol i reolwyr.
- 3.2. Nod y cytundeb hwn yw hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb a rhoi canllawiau i reolwyr pan fydd pobl yn gweithio mwy o oriau na'r hyn a gydnabyddir yn eu contract.

4. Disgrifiad o Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl

- 4.1 Trefniant gweithio yw Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl (TOIL yw'r byrfodd Saesneg), lle bydd hawl gan reolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gweithio cydnabyddedig arferol (yn dibynnu ar eu rôl/contract). 37 awr yw hyd yr wythnos waith arferol i staff amser llawn.
- 4.2 Mae Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl yn berthnasol i gyfnodau ychwanegol o waith a wneir (ac a gytunwyd yn benodol ymlaen llaw gyda'u rheolwr) naill ai cyn neu ar ôl y diwrnod gwaith arferol. Nid yw'n berthnasol i amseroedd cinio. Rhaid i reolwyr annog staff i gymryd egwyl ginio addas bob diwrnod. Os oes angen cynnal cyfarfodydd amser cinio, yna dylid caniatáu i staff gael egwyl naill ai cyn neu ar ôl y cyfarfod, drwy gytuno ar y cyd ar hynny.

5. Gofynion Polisi

Nod y cytundeb hwn y galluogi colegau i ddatblygu polisiau er mwyn ateb y gofynion canlynol:

- 5.1 Dylid cronni Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl fel eithriad yn hytrach nag yn rheolaidd, gan y dylai'r rhan fwyaf o ddyletswyddau gwaith gael eu cyflawni fel rhan o oriau gwaith arferol contract rheolwyr. Dylid cytuno ar batrymau gwaith unigol yn lleol gyda rheolwr / rheolwyr llinell pan fydd gofyn gweithio gyda'r nos yn rheolaidd / wythnosol, er enghraifft.
- 5.2 Bydd Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl yn cael ei gymryd yn ôl ar sail gyfatebol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl a gronnir am weithio ar y penwythnos.
- 5.3 Y bloc lleiaf o amser y gellir ei gofnodi ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl yw 30 munud.
- 5.4 Ni ddylid cronni Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl yn rheolaidd. Fodd bynnag, pan fydd aelod o staff yn gweithio mewn ffordd a fydd yn cronni Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl yn rheolaidd am gyfnod penodedig, a phan fydd hynny wedi'i gytuno â'u rheolwr llinell, rhaid iddynt gadw cofnod ar y cyd o'r Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl, gan gofnodi'r holl gyfnodau o Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl a weithiwyd. Dylai'r rheolwr llinell allu gweld y cofnod hwn. Dylid cymryd Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sydd wedi'i fancio ar adeg sy'n gyfleus i'r aelod o'r staff ac i'r adran ill dau, a dylai'r rheolwr llinell gytuno ar hynny.
- 5.5 Ni chaiff Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl ei gronni fel arfer am waith a wneir gartref, oni bai bod y rheolwr llinell yn cytuno ymlaen llaw i hynny.
- 5.6 Dylid cymryd unrhyw Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl a gronnir o fewn (i'w gytuno gan y Pennaeth ac i fod yn berthnasol drwy'r holl Goleg), neu caiff yr amser hwnnw ei golli. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, efallai y gellir cario rhywfaint o Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl drosodd i'r (i'w gytuno gan y Pennaeth ac i fod yn berthnasol drwy'r holl Goleg) canlynol / ganlynol, ond rhaid cytuno ar hyn gyda'r adran Adnoddau Dynol.
- 5.7 Ni ellir cymryd mwy na 2 ddiwrnod (15 awr neu bro-rata i staff rhan amser) o Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl ar unrhyw adeg oni bai y cytunir ar hynny fel eithriad, neu hyd at 5 niwrnod os cymerir yr amser yn ystod cyfnod y gwyliau, cyn belled ag y bydd y rheolwyr yn cytuno.
- 5.8 Wrth i gyflogaeth ddod i ben, dylai gweithiwr gymryd yr holl Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sydd ganddo cyn gadael. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl ac mewn amgylchiadau eithriadol, rhoddir tâl am Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl na chymerwyd.
- 5.9 Weithiau bydd angen dechrau'n gynnar ac / neu orffen yn hwyr yn ystod y tymor er mwyn teithio i gwrs, a bydd hynny'n ymestyn y diwrnod gwaith. Gellir bancio Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl y cytunwyd arno yn yr amgylchiadau hyn ar adeg sy'n gyfleus i'r ddwy ochr.

6. Rheoli Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl

- 6.1 Mae'n rhaid i'r Rheolwr Llinell gytuno ymlaen llaw i'r holl drefniadau Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl, gan gydlynw'r Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl i sicrhau bod digon o bobl ar gael i weithio er mwyn cyflawni holl weithgareddau'r adran.
- 6.2 Mae Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl i'w gymryd ar ddyddiad y mae'r ddwy ochr yn cytuno arno, y tu allan i amser cyswllt ac wythnosau gweinyddol pan fydd hynny'n bosibl, ac yn ystod y cyfnod gwyliau nesaf neu'n gynt e.e. pan gyflwynir cais am absenoldeb gyda thâl (e.e. i fynd i apwyntiad ysbyty), byddai disgwyl i staff ddefnyddio unrhyw Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl a gronnwyd yn y lle cyntaf.
- 6.3 Mae gweithwyr yn gyfrifol am gofnodi eu Hamser o'r Gwaith yn Lle Tâl eu hunain, a dylid cofnodi hwn drwy ddefnyddio [y colegau unigol i roi enw'r system sydd i'w defnyddio] a dylai'r rheolwr llinell fonitro hyn. Gellir ystyried unrhyw gofnodion twyllodrus neu anwireddus a gyflwynir ynghylch Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl fel achos o gamymddwyn difrifol o dan weithdrefn ddisgyblu'r Coleg.

Monitro ac Adolygu

Caiff y cytundeb hwn ei fonitro a'i adolygu bob tair blynedd gan Bwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach.

Dyddiad yr adolygiad nesaf: Hydref 2020

Pwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach

Cydgytundeb ar Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl ar gyfer Staff Rheoli ar Contract

LLOFNODION Y RHEINI Y MAE'R CYTUNDEB HWN YN BERTHNASOL IDDYNT

- (a) ColegauCymru
- (b) ATL/AMiE
- (c) GMB
- (d) NASUWT
- (e) UCU
- (f) Ucac
- (g) UNISON
- (h) Unite – uno'r Undeb

Dyddiad Cychwyn y Cytundeb hwn:

.....

2017

Pwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Crynodeb

1. Enw'r gwaith/cytundeb:

Cydgytundeb ar Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl ar gyfer Staff Rheoli ar Contract.

2. Cwmpas

Mae'r cytundeb hwn yn berthnasol i bob rheolwr a gyflogir yn unol â'r telerau a geir yn y contract cenedlaethol i reolwyr.

Nod y cytundeb hwn yw hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb a rhoi canllawiau i reolwyr pan fydd pobl yn gweithio mwy o oriau na'r hyn a gydnabyddir yn eu contract.

3. Swyddog arweiniol/aelod o'r pwyllgor:

Cynhaliwyd yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan Grŵp Drafftio Pwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach ac mae wedi'i adolygu gan y Pwyllgor.

4. Prif amcanion/dibenion/canlyniadau'r cytundeb hwn:

2.1. Mae'r cytundeb hwn wedi'i gytuno ar y cyd rhwng yr undebau llafur a'r cyflogwyr ar Bwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach.

2.2. Mae'r cytundeb hwn i'w ddefnyddio gan Golegau unigol er mwyn datblygu polisiau a gweithdrefnau i reoli Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl ar gyfer staff a gyflogir yn unol â'r telerau a'r amodau a geir yn y contract cenedlaethol i reolwyr. Wrth benderfynu ar bolisi lleol, dylid dilyn y trefniadau arferol er mwyn ymgynghori â'r undebau llafur cydnabyddedig yn unol â'r telerau a geir yn y cydgytundeb hwn.

5. A oes ymgynghoriad wedi'i gynnal ynghylch y cytundeb hwn?

Mae Pwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach wedi ymgysylltu â Cholegau a'r undebau llafur ar y cyd er mwyn canfod yr effaith ar unrhyw bobl a chanddynt nodweddion gwarchoddedig. Mae'r pwyntiau allweddol canlynol wedi'u nodi ac wedi'u hymgorffori yn y cytundeb:

- Trefniant gweithio yw Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl, lle bydd hawl gan reolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gweithio cydnabyddedig arferol (yn dibynnu ar eu rôl/contract).
 - Mae'r cytundeb yn ceisio sicrhau bod Colegau yn datblygu polisiau a gweithdrefnau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n gynhwysol ac yn adlewyrchu'r telerau a nodir mewn ffordd deg a chyson i'r holl reolwyr a gyflogir mewn Addysg Bellach.
 - Mae hefyd yn caniatáu i'r Colegau ystyried datblygu polisi er mwyn galluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref yn eu bywydau personol.
- 6. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol neu i hyrwyddo effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchoddedig (gweler adran 2)?**

Mae'r cytundeb yn nodi'r gofyniad y bydd colegau'n sicrhau eu bod yn rhoi cyhoeddusrwydd da i'w polisi Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl ar gyfer rheolwyr, ac yn tynnu sylw'r holl reolwyr a'r staff ato. Mae'r cytundeb hefyd yn ymrwmo i sicrhau bod yr holl reolwyr yn cael hyfforddiant priodol ynghylch gweithredu'r polisi hwn.

7. Sut y bydd y cynigion yn gymorth i hyrwyddo cydraddoldeb, i gael gwared ar wahaniaethu ac i hyrwyddo perthnasau da?

Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith drwy alluogi Colegau i ystyried datblygu polisi ar gyfer rheolwyr er mwyn iddynt allu ymateb i ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n deg a chyson i reolwyr a'r holl nodweddion gwarchoddedig.

8. A oes cynllun gweithredu wedi'i greu? OES

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1. Casglu Data a Thystiolaeth

<p>Pa dystiolaeth e.e. data, ymchwil, canlyniadau ymgysylltu ac ymgynghori, rydych chi wedi'i defnyddio i ystyried sut y gallai'r cytundeb hwn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig?</p> <p>Dylid dangos y cysylltiad yn glir â'r nodwedd warchoddedig berthnasol</p> <p>Rhowch ddolenni i unrhyw ddogfennau perthnasol. Gyda phwy y bu ichi ymgysylltu a beth oedd y canlyniadau? (Mae'n ofyniad statudol ymgysylltu â phobl sydd â nodweddion gwarchoddedig).</p> <p>Wrth ystyried y ddyletswydd fel rhan o'r broses negodi, bydd y Pwyllgor am ystyried data cenedlaethol yn ogystal â data sy'n benodol i'r sector</p>	<p>Wrth ystyried y data a'r dystiolaeth berthnasol, mae Pwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach wedi ystyried y canlynol:</p> <p>Deddfwriaeth: Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y prif Reoliadau ym maes oriau gwaith, sef:</p> <ul style="list-style-type: none">• Rheoliadau Oriau Gwaith 1998 (SI 1998/1833) a• Rheoliadau Oriau Gwaith (Diwygio) 2007 (SI 2007/1079).• Daeth y Rheoliadau uchod i rym ar 1 Hydref 1998 ac 1 Hydref 2007 yn y drefn honno, ac maent yn rhoi ar waith ddarpariaethau'r Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd (93/104/EC). <p>Ymgysylltu: Mae Pwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach wedi ymgysylltu â Cholegau a'r undebau llafur ar y cyd er mwyn canfod yr effaith ar unrhyw bobl a chanddynt nodweddion gwarchoddedig. Mae'r pwyntiau allweddol canlynol wedi'u nodi ac wedi'u hymgorffori yn y cytundeb:</p> <ul style="list-style-type: none">• Trefniant gweithio yw Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl, lle bydd hawl gan reolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gweithio cydnabyddedig arferol (yn dibynnu ar eu rôl/contract).• Y bwriad yw sicrhau y gall rheolwyr gymryd amser yn ôl pan fyddant yn mynd i ddigwyddiadau gwaith sy'n ymestyn y tu hwnt i'w horiau gwaith arferol.• Mae'r cytundeb yn ceisio sicrhau bod Colegau yn datblygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n
---	---

	<p>gynhwysol ac yn adlewyrchu'r telerau a nodir mewn ffordd deg a chyson i'r holl reolwyr a gyflogir mewn Addysg Bellach.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai hefyd alluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref yn eu bywydau personol.
Pa ymchwil, data neu ymgynghori ychwanegol sy'n angenrheidiol er mwyn llenwi unrhyw fylchau wrth ddeall effeithiau'r cytundeb hwn?	Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r trefniant bob tair blynedd. Bydd rhagor o ymgynghori'n cael ei wneud cyn datblygu'r cytundeb.

2 Asesu effaith a chryfhau'r cytundeb

Mae'r adran hon yn gofyn ichi asesu effaith y cytundeb ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r cytundeb ar y grwpiau canlynol

Nodwch yr effaith						
	Effaith positif le/Na	Effaith negyddol le/Na	Dim effaith le/Na	Sut y mae'n effeithio ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallwch gyfyngu ar yr effaith negyddol	Sut y gallwch hyrwyddo effaith positif ¹
Oedran <i>Nodwch effaith/effaith bosibl y gwasanaeth ar bobl hŷn a phobl iau.</i>	le	Na	Na	Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd	Dim effaith negyddol wedi'i chanfod	Mae'r cytundeb yn nodi'r gofyniad y bydd colegau'n sicrhau eu bod yn rhoi cyhoeddusrwydd da i'r polisi Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl ar gyfer rheolwyr, ac yn tynnu sylw'r holl reolwyr a'r staff ato. Mae'r cytundeb hefyd yn ymrwymo i sicrhau bod yr holl reolwyr yn cael hyfforddiant priodol ynghylch gweithredu'r polisi hwn.

¹ Pa fesurau y mae angen eu cynnwys yn y cytundeb er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb, cael gwared ar wahaniaethu a hyrwyddo perthnasau da?

				bywyd-gwaith drwy alluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n deg a chyson i reolwyr o bob oed .		
Anabledd <i>Nodwch yr effaith/effaith bosibl ar bobl anabl (cofiwch ystyried ystod o namau, e.e. nam corfforol, nam ar y synhwyrau, anableddau dysgu, salwch hirdymor).</i>	le	Na	Na	Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith drwy alluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb hwn yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl i reolwyr sy'n deg a chyson ac mae'n cefnogi'r rheini sydd ag anabledd neu anabledd cysylltiedig (fel cyfrifoldebau gofalu)	Dim effaith negyddol wedi'i chanfod	Fel uchod
Ailbennu rhywedd <i>Nodwch effaith/effaith</i>	le	Na	Na	Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau	Dim effaith negyddol wedi'i chanfod	Fel uchod

<p><i>bosibl y gwasanaeth ar bobl trawsryweddol.</i></p>				<p>a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith drwy alluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb hwn yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl i reolwyr sy'n deg a chyson pan fydd y rheini wedi ailbennu rhywedd neu'n ystyried neu yn y broses o wneud hynny.</p>	
<p>Priodas a phartneriaeth sifil</p> <p><i>Nodwch yr effaith ar bobl briod neu bobl mewn partneriaethau sifil</i></p>	<p>le</p>	<p>Na</p>	<p>Na</p> <p>Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith drwy alluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n deg a chyson i reolwyr</p>	<p>Dim effaith negyddol wedi'i chanfod</p>	<p>Fel uchod</p>

				sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil.		
Beichiogrwydd a mamolaeth <i>Nodwch effaith/effaith bosibl y gwasanaeth ar bobl feichiog neu fenywod ar absenoldeb mamolaeth.</i>	le	Na	Na	Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith drwy alluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n deg a chyson i reolwyr sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth .	Dim effaith negyddol wedi'i chanfod	Fel uchod
Hil <i>Nodwch effaith/effaith bosibl y gwasanaeth ar bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig</i>	le	Na	Na	Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith drwy alluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu	Dim effaith negyddol wedi'i chanfod	Fel uchod

				ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n deg a chyson i reolwyr o bob hil .		
Crefydd / Cred <i>Nodwch effaith/effaith bosibl y gwasanaeth ar bobl o wahanol grwpiau crefyddol a chred.</i>	le	Na	Na	Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith drwy alluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n deg a chyson i reolwyr o bob cred grefyddol, cred neu ddim cred .	Dim effaith negyddol wedi'i chanfod	Fel uchod
Rhyw <i>Nodwch yr effaith ar wrywod, menywod, bechgyn a merched</i>	le	Na	Na	Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith drwy alluogi rheolwyr i ymateb i	Dim effaith negyddol wedi'i chanfod	Fel uchod

				ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n deg a chyson i'r holl reolwyr gwrywaidd a benywaidd.		
Cyfeiriadedd Rhywiol <i>Nodwch yr effaith ar bobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol</i>	le	Na	Na	Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad colegau i alluogi rheolwyr i gymryd amser o'r gwaith i wneud iawn am oriau a weithiwyd y tu hwnt i'r diwrnod gwaith cydnabyddedig arferol. Mae hyn yn cefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith drwy alluogi rheolwyr i ymateb i ddigwyddiadau gartref neu rai sy'n ymwneud â'u teulu neu ofalu yn eu bywydau personol. Nod y cytundeb yw creu trefniadau ar gyfer Amser o'r Gwaith yn Lle Tâl sy'n deg a chyson i reolwyr waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol.	Dim effaith negyddol wedi'i chanfod	Fel uchod
Arall (<i>effeithiau ychwanegol, er enghraifft ar y Gymraeg, tlodi, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig</i>)	le	Na	Na	Mae'r cytundeb yn nodi ymrwymiad i gynhwysiant a bydd yn berthnasol mewn ffordd deg i'r holl staff. Mae'n rhaid i golegau ystyried gofynion eu Cynllun Iaith	Dim effaith negyddol wedi'i chanfod	Bydd y Pwyllgor yn gwneud trefniadau i'r cytundeb fod ar gael ar gais mewn ystod o fformatau gan gynnwys Braille mawr, tâp casét, disg, CD Rom. Caiff y cytundeb ei gyfieithu i'r Gymraeg (gweler y cynllun gweithredu)

				Gymraeg wrth ddatblygu unrhyw bolisi.		
--	--	--	--	---------------------------------------	--	--

3. Cyfiawnhad

Os na chymerir camau i liniaru neu i gael gwared ar effaith negyddol/niweidiol, rhowch gyfiawnhad pam	Amherthnasol
--	--------------

4. Caffael

<p>A yw'r cytundeb hwn yn berthnasol i gontractwyr allanol? Os ydyw, nodwch pa gamau y byddwch yn eu cymryd i ymgorffori'r gofyniad i ystyried y ddyletswydd cydraddoldeb ym mhob cam o'r broses gaffael.</p> <p>Bydd angen ichi feddwl am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tendro a manylebau • y broses ddyfarnu • amodau'r contract • mesurau perfformiad, a mesurau monitro a pherfformiad 	Na.
---	-----

5. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

<p>Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cytundeb newydd?</p> <p>Gallai hyn gynnwys addasu neu ehangu systemau monitro presennol, yr amserlenni perthnasol ac ymrwymiad i gynnal</p>	<p>Cyfrifoldeb Colegau yw monitro ac adolygu polisïau a ddatblygir i roi'r cytundeb cenedlaethol hwn ar waith. Caiff y cytundeb ei adolygu bob tair blynedd gan Bwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach. Os bydd Coleg neu Undeb Llafur yn cyfeirio at broblem a fyddai'n galw am adolygiad cynharach o'r cytundeb hwn, bydd hyn yn cael ei wneud.</p>
--	---

adolygiad o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb unwaith y bydd y cytundeb wedi bodoli am flwyddyn. Rhowch fanylion unrhyw waith dilynol a fydd yn cael ei wneud o ran y cytundeb (e.e. arolwg, proses fonitro benodol ac ati).	
Rhowch fanylion ynghylch sut y bydd canlyniadau'r asesiad o'r effaith yn cael eu cyhoeddi, gan gynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad a gwybodaeth fonitro os yw'n berthnasol.	Bydd y Cydgytundeb a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwefan ColegauCymru a bydd hyn yn cynnwys manylion y trefniadau monitro.

6. Cynllun Gweithredu

Mae'r isod yn rhoi cyfle i ddatgan sut y caiff unrhyw effeithiau negyddol eu lliniaru. Mae'n gyfle hefyd inni ddangos sut y byddwn yn rhoi sylw i unrhyw fylchau yn y cytundeb. Edrychwch yn ôl drwy gamau 1 – 7 yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys unrhyw gamau yn y cynllun isod. Gofalwch fod pob cam wedi'i restru gyda dyddiad targed ac wedi'i neilltuo i aelod sydd wedi'i enwi o'r pwyllgor.

Cam gweithredu	Person cyfrifol	Erbyn pryd	Cynnydd
ColegauCymru i greu tudalen bwrpasol ar gyfer Pwyllgor Negodi Cymru Addysg Bellach er mwyn uwchlwytho dogfennau i'r cyhoedd eu gweld.	Prif Weithredwr - ColegauCymru	Wedi'i drefnu	Wedi'i gwblhau
Cyhoeddi crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ²	Prif Weithredwr - ColegauCymru	30 Tach 17	
Cyfieithu'r cytundeb i'r Gymraeg	Prif Weithredwr - ColegauCymru	30 Tach 17	
Gwneud trefniadau i'r cytundeb fod ar gael ar gais mewn ystod o fformatau gan gynnwys Braille mawr, tâp casét, disg, CD Rom.	Prif Weithredwr - ColegauCymru	30 Tach 17	

7 - Cymeradwyo

Cam olaf yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yw cymeradwyo'r ddogfen fel asesiad cyflawn, trylwyr a chadarn

² Bydd angen cyhoeddi crynodebau o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fydd effaith sylweddol

Mae'r polisi wedi cael ei asesu'n llawn o ran ei effeithiau posibl ar gydraddoldeb ac mae sylw wedi'i roi i'r holl bryderon perthnasol.

Bydd aelodau'r Tîm Asesu yn ffurfio'r Grŵp Drafftio

Enw	Teitl Swydd	Sefydliad